OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

2011 Rhif 594 (Cy.87)

DATGANOLI, CYMRU
LLWON
YR IAITH GYMRAEG

Gorchymyn Ffurfiau Cymraeg Llwon a Chadarnhadau (Deddf Llywodraeth Cymru 2006) (Diwygio) 2011

Gwnaed - - - -	*1 Mawrth 2011*
Gosodwyd gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru - -	*3 Mawrth 2011*
Yn dod i rym - -	*30 Mawrth 2011*

Mae Gweinidogion Cymru yn gwneud y gorchymyn a ganlyn drwy arfer y pŵer a roddwyd gan adran 26(2) o Ddeddf yr Iaith Gymraeg 1993(**1**) ac sy'n arferadwy bellach ganddynt hwy(**2**).

Enwi, dehongli a chychwyn

1.—(1) Enw'r gorchymyn hwn yw Gorchymyn Ffurfiau Cymraeg Llwon a Chadarnhadau (Deddf Llywodraeth Cymru 2006) (Diwygio) 2011.

(2) Yn y gorchymyn hwn ystyr "y gorchymyn" ("*the order*") yw Gorchymyn Ffurfiau Cymraeg Llwon a Chadarnhadau (Deddf Llywodraeth Cymru 2006) 2007 (**3**).

(3) Daw'r gorchymyn hwn i rym ar 30 Mawrth 2011.

Ffurf Gymraeg ddiwygiedig cadarnhad teyrngarwch y caiff aelod o Gynulliad Cenedlaethol Cymru ei roi

2. Yn erthygl 6(2) o'r gorchymyn, yn lle'r ffurf Gymraeg rhodder—

(**1**) 1993 p.38.

(**2**) Cafwyd cyfarwyddyd yng Ngorchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Trosglwyddo Swyddogaethau) 1999 (O.S. 1999/672), erthygl 2(b), Atodlen 1, fod y pŵer yn adran 26(2) o Ddeddf yr Iaith Gymraeg 1993 i'w arfer, o ran Cymru, gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru a gyfansoddwyd gan Ddeddf Llywodraeth Cymru 1998 (p. 38) yn gydredol ag unrhyw un o Weinidogion y Goron yr oedd y pŵer yn arferadwy ganddo. Trosglwyddwyd y pŵer oddi wrth y Cynulliad hwnnw i Weinidogion Cymru yn rhinwedd adran 162 o Deddf Llywodraeth Cymru 2006 (p.32) a pharagraff 30(1) o Atodlen 11 iddi.

(**3**) O.S. 2007/2044 (Cy. 169).